**Ysgol Gymraeg Gwenffrwd**

# <u>Polisi T.G.Ch: '*Minecraft Pocket Edition*'</u>

Annwyl Riant/Warchodwr,

Rydym ni fel Cyngor Ysgol, wedi bod yn brysur yn trafod manteision ac anfanteision defnyddio *Minecraft Pocket Edition* yn ein dosbarthiadau. Ar ôl trafodaeth ddwys, daethom i gasgliad y byddai defnyddio'r ap yn afr addysgol gwerthfawr i'n hysgol.

Ein bwriad yma yn Ysgol Gymraeg Gwenffrwd yw darparu gwersi addas a diddorol sy'n ennyn brwdfrydedd y disgyblion. Credwn bydd *Minecraft Pocket Edition* yn llwyddo i wneud hynny gan gefnogi a datblygu sgiliau y disgyblion ar draws y Cwricwlwm.

Gêm boblogaidd i blant ac oedolion ynghyd yw *Minecraft*. Fodd bynnag, byddai'r disgyblion yn defnyddio fersiwn arbennig o'r ap, sef *Minecraft Pocket Edition*. Bydd y fersiwn yma o'r gêm ond ar gael ar iPads yr ysgol. Wrth ddefnyddio'r fersiwn arbennig yma, ac oherwydd ein cysylltiad rhyngrwyd diogel, bydd y plant ond yn gallu sgwrsio â'u cyfoedion o fewn Ysgol Gwenffrwd yn unig. Ni fydd modd i'r plant siarad ag unrhyw un tu allan i'r ysgol.

**Beth yw *Minecraft Pocket Edition*?**
Gêm creu adeiladau 3D ar gyfrifiadur/iPad (tebyg i Lego). Galluogai'r ap i blant ymchwilio, adeiladu a chreu bron unrhyw beth. Mae *Minecraft Pocket Edition* yn wahanol i gemau eraill oherwydd nod y gêm yw i adeiladu gwrthrychau/syniadau yn hytrach na'u dinistro.

Gêm gynhwysol yw *Minecraft Pocket Edition* ar gyfer plant o bob oedran a gallu sy'n caniatau i'r plant chwarae'r gêm ar lefel bersonol. Er bod y mwyafrif o gemau yn gofyn i chwaraewyr gyflawni heriau cyn symud ymlaen i'r lefel nesaf, mae *Minecraft Pocket Edition* yn caniatau i blant greu byd dychmygol a allent chwarae ynddo heb boeni am y pwysau o gyrraedd gwahanol lefelau.

**Ymha ffordd y byddai *Minecraft Pocket Edition* yn helpu fy mhlentyn yn yr ysgol?**

Bydd *Minecraft Pocket Edition* yn cael ei ddefnyddio yn y dosbarth fel arf dysgu ar gyfer amryw o bynciau.

Dyma rai enghreifftiau

- Mathemateg – dyblu ac hanneru. Adeiladu cestyll/adeiladau dwbl neu hanner y maint. Astudio adeiladau 3D.
- Llythrennedd (Darllen) – Gall disgyblion adluniadu lleoliadau a golygfeydd o beth maent yn ei ddarllen er mwyn sicrhau eu dealltwriaeth o'r testun.
- Llythrennedd (Ysgrifennu) – Ysgrifennu cyfarwyddiadau manwl gywir ar sut i adeiladu tŷ.
- Hanes – Creu dyblygiadau o adeiladu hynafol e.e. Hen Rufain neu Fryngaer Geltaidd.
- Daearyddiaeth – Arwynebedd a gofod.
- Gall ddatblygu sgiliau cydweithio a chyfathrebu disgyblion hefyd.

Er mwyn i ni ddefnyddio'r ap mewn modd diogel, mae'n hanfodol bod disgyblion Ysgol Gymraeg Gwenffrwd yn defnyddio'r ap yn gyfrifol gan ddilyn y rheolau isod:

1. Dylai'r ap ond gael ei ddefnyddio gyda chaniatad staff yr ysgol.
2. Dylir ei ddefnyddio er mwyn cyrraedd nod y wers yn unig.
3. Ni chaniateir disgyblion i brynu unrhyw eitem ar yr ap.
4. Trin yr ap a'r iPad gyda pharch.

Diolch
Aelodau'r Cyngor Ysgol

Dan ofal ac arweiniad,
Mrs A Williams a Mrs Elen Mai Jones

- - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - -

Anfonwch y slip yn ôl mewn amlen (wedi ei labelu ag enw eich plentyn) a'i roi i'r athro/awes dosbarth os gwelwch yn dda.

## Ysgol Gymraeg Gwenffrwd: *Cytundeb 'Minecraft Pocket Edition'.*

**Datganiad**

Rydw i ________________________________ (enw rhiant) wedi darllen y polisi uchod gyda fy mhlentyn ac o ganlyniad, yn cefnogi y defnydd o'r ap *Minecraft Pocket Edition* er mwyn cefnogi gweithgareddau addysgol yn yr ysgol.

Rydw i ____________________________(enw'r plentyn) yn gaddo defnyddio'r ap *Minecraft Pocket Edition* gyda pharch ac i bwrpas. Deallaf hefyd, **pe bawn yn torri'r rheolau, bydd y fraint o ddefnyddio'r ap yn cael ei gymryd oddi arnai.**

Arwyddwyd: ___________________________ (Rhiant)

___________________________ (Plentyn)

Dyddiad: ___________________________